DAVIES, JOHN ('Siôn Dafydd,' ' Siôn Dafydd Lâs '; bu farw 1694), ' bardd teulu ' Nannau, gerllaw Dolgellau;

Enw: John Davies
Ffugenw: Siôn Dafydd, Siôn Dafydd Lâs
Dyddiad marw: 1694
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd teulu
Cartref: Nannau
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Menai Williams

dywedir ei eni yn y Pandy, Llanuwchllyn, a thybir iddo fyw am gyfnod yn T 'n-y-ffridd. Awgryma Evan Roberts, Llandderfel (*Seren* y Bala, 29 Tachwedd 1950), mai efe a gyfansoddodd yr alaw a elwid gynt yn ' Dafydd y Garreg Las ' ('Pant corlan yr yn ' yw ei henw erbyn hyn); os felly, y mae'n debyg ei fod yn delynor hefyd.

Y mae'n bwysig am ei fod ymhlith y to diwethaf o'r beirdd a noddid gan aelodau'r hen deuluoedd tiriog Cymreig. Canodd i deuluoedd yng Ngogledd Cymru - Nannau, Doluwcheogryd, Maesyneuadd, Glyncywarch, Dolaugwyn, Cefnamwlch, Gloddaeth, Bodysgallen, Corsygedol, Maesypandy, Tanybwlch, etc. Heblaw cywyddau ac englynion, canodd garolau. Ysgrifennodd farwnadau pan fu farw'r bardd Edward Morus, a Morris Parry, ' person Llanelian ag un o'r prydyddion goreu yn ei amser'; canodd farwnad y brenin Siarl II hefyd. Canwyd marwnadau iddo yntau gan Owen Gruffydd, Llanystumdwy - gweler O. M. Edwards, *Gwaith Owen Gruffydd* ('Cyfres y Fil'); yn ôl y cywydd hwn yn 1694 y bu John Davies farw - a chan Lewis Owen (gweler Cwrtmawr MS. 5).

Yr oedd ' Siôn Dafydd ' yn ewythr i David Jones o Drefriw, argraffydd a chyhoeddwr; ar hyn gweler *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, vii, 73-4.

Awdur

Menai Williams

Ffynonellau

Y Geninen (G yl Dewi), 1890

The Cefn Coch MSS. two MSS. of Welsh poetry written principally during the 17th century (Lerpwl 1899) (gol. J. Fisher)

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893)

Y Brython (Tremadog), iv, 264

Cardiff Manuscripts 47-8, 64-7, 84

Additional Manuscripts in the British Museum 10314, 12230, 14888, 14975, 15010

Llawysgrifau Bangor yn Llyfrgell Coleg y Gogledd, Bangor 84, 421, 758

Gwyneddon Manuscripts 16, 119

a'r llawysgrifau hyn yn Ll.G.C.:

Bodewryd 2

Swansea 1-3

Wynnstay 6

Cwrtmawr 5, 19, 27, 40, 69, 70, 110, 128-9, 206, 242, 448

Archifau LlGC: Llanstephan MS 7: The poetrical works of Lewis Glyn Cothi, Ieuan Brechfa and others

Archifau LlGC: Llanstephan MS 15: Poetry of Cynddelw, Bleddyn Fardd, &c.

Archifau LlGC: Llanstephan MS 133: Poetry

Archifau LlGC: Llanstephan MS 165: Poetry

Archifau LlGC: Llanstephan MS 166: Poetry, &c.

Archifau LlGC: Llanstephan MS 167: Poetry

Mostyn 96, 112, 130, 139, 143-4, 165

Pen. 91, 124, 198, 239, 241-2

N.L.W. 279, 431, 436, 559, 593, 670, 672, 832, 836, 1244, 1246, 1273, 1312, 1485, 1580, 4971, 8341, 9202, 9408-9, 12713, 12731, 12867, 13127

a Tanybwlch MS. (ffacsimili yn Ll.G.C.)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733383

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu